

CYFLOGI PLANT A PHOBL IFANC

**MAE'R GYFRAITH YN DWEUD**

Nes i mi gyrraedd oed gadael ysgol, mae'r rheolau canlynol yn berthnasol os rwyf yn dechrau gweithio.

Dylai ffurflen gais, wedi'i llofnodi gan fy rhieni a'm cyflogwr, gael ei chwblhau a'i hanfon at Swyddog Cyflogaeth Plant Dinas a Sir Abertawe cyn i mi ddechrau gweithio.

Mae'n rhaid i'r cyflogwr gynnal asesiad risg llawn y mae'n rhaid iddo fod ar gael i'w archwilio cyn y gellir rhoi trwydded gyflogaeth sy'n caniatáu i mi weithio'n gyfreithlon.

PAN FYDDAF YN	GALLAF WEITHIO AR	YN YSTOD YR ORIAU CANLYNOL
<b>13 OED*</b>  A	<b>DIWRNODAU YSGOL</b>	Heb fod yn fwy na chyfanswm o <b>ddwy awr</b> mewn un diwrnod yn ystod y cyfnodau canlynol: a) Yn y bore am awr rhwng 7am a dechrau ysgol b) Yn yr hwyr, rhwng amser cau'r ysgol a 7pm (uchafswm o 12 awr yr wythnos).
	<b>DYDD SADWRN</b>	5 awr y dydd rhwng 7am a 7pm.
	<b>DYDD SUL</b>	2 awr yn unig rhwng 7am a 7pm.
<b>14 OED</b>	<b>GWYLIAU YSGOL</b>	5 awr y dydd ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos 9ac eithrio dydd Sul) 7am a 7pm. Ond ni ddylai'r cyfanswm a <b>weithiwyd fod yn fwy na 25 awr</b> . Yn ystod y flwyddyn, mewn un cyfnod o wyliau ysgol, mae'n rhaid i mi gael seibiant o bythefnos yn olynol pan na fyddaf yn gwneud unrhyw waith o gwbl.

\*Pan fyddaf yn 13 oed gallaf gael fy nghyflogi mewn rhai mathau o waith yn unig, fel a restrir yn yr is-ddeddfau.

PAN FYDDAF YN	GALLAF WEITHIO AR	YN YSTOD YR ORIAU CANLYNOL
<b>15 OED</b>  AC	<b>DIWRNODAU YSGOL</b>	Heb fod yn fwy na chyfanswm o <b>ddwy awr</b> mewn un diwrnod yn ystod y cyfnodau canlynol: a) Yn y bore rhwng 7am a dechrau'r ysgol b) Yn yr hwyr rhwng amser cau'r ysgol a 7pm (uchafswm o 12 awr yr wythnos).
	<b>DYDD SADWRN</b>	8 awr y dydd rhwng 7am a 7pm.
	<b>DYDD SUL</b>	2 awr yn unig rhwng 7am a 7pm.
	<b>GWYLIAU YSGOL</b>	8 awr y dydd ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos 9ac eithrio dydd Sul) 7am a 7pm. Ond <b>ni</b> ddylai'r cyfanswm a <b>weithiwyd fod yn fwy na 35 awr</b> . Yn ystod y flwyddyn, adeg gwyliau'r ysgol, mae'n rhaid i mi gael seibiant o bythefnos yn olynol pan na fyddaf yn gweithio o gwbl.

**OED YSGOL GORFODOL** - Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno un dyddiad gadael ysgol. Y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn mae'r disgybl yn cyrraedd 16 oed yw'r dyddiad **NI ALL PLANT DDECHRAU CYFLOGAETH AMSER LLAWN TAN AR ÔL DYDDIAD GADAEL YSGOL.**

**BETH NA ALLAF EI WNEUD**  
**CYN OED GADAEL YSGOL GORFODOL**

*Ni allaf gael fy nghyflogi mewn cyflogaeth â thâl neu ddi-dâl gan gynnwys y sector gwirfoddol*

- a) Mewn sinema, theatr, disgo, neuadd ddawns neu glwb nos ac eithrio mewn cysylltiad â pherfformiad a roddir yn gyfan gwbl gan blant (Gallant wneud y gwaith hyn os oes ganddynt drwydded briodol).
- b) Gwerthu neu ddsbarthu alcohol, ac eithrio mewn cynwysyddion wedi'u selio
- c) Dosbarthu llaeth
- ch) Dosbarthu olew tanwydd
- d) Mewn cegin fasnachol  
Casglu neu ddi-doli sbwriel
- dd)
- e) Mewn unrhyw waith sy'n fwy na thri metr uwchben lefel y ddaear neu, o ran gwaith mewnol, dros dri metr uwchben lefel y llawr
- f) Mewn cyflogaeth lle gellir dod i gysylltiad niweidiol â sylweddau corfforol, biolegol neu gemegol
- ff) Casglu arian neu werthu/mynd o ddrws i ddrws, ac eithrio dan oruchwyliaeth oedolyn
- g) Mewn gwaith sy'n cynnwys dod i gysylltiad â deunyddiau i oedolion neu sefyllfaoedd sydd am y rheswm yma, yn anaddas i blant
- ng)
- h) Mewn unrhyw ladd-dy neu ran o siop cigydd neu eiddo sy'n gysylltiedig â lladd da byw, bwtsiera neu baratoi carcasau neu gig i'w gwerthu
- i) Fel gwasanaethydd neu gynorthwy-ydd ar safle ffair neu mewn arcêd ddiddanu neu mewn unrhyw eiddo arall a ddefnyddir at ddibenion difyrur'r cyhoedd sy'n cynnwys peiriannau awtomatig, gemau siawns neu ddyfeisiau tebyg
- l) Gofalu'n bersonol am drigolion unrhyw gartref gofal preswyl neu gartref nyrsio oni bai bod hynny dan oruchwyliaeth oedolyn cyfrifol.

**BETH GALLAF EI WNEUD**

**13 OED**

*Gallaf wneud gwaith ysgafn\* o'r math canlynol*

- a) Gwaith amaethyddol neu arddwriaeth
- b) Dosbarthu papurau newydd, cylchgronau a deunydd printiedig arall.
- c) Gwaith siop gan gynnwys llenwi silffoedd
- ch) Salonau trin gwallt
- d) Gwaith swyddfa
- dd) Golchi ceir â llaw mewn lleoliad preswyl preifat
- e) Mewn caffi neu fwyty
- f) Mewn stablau marchogaeth
- i) Gwaith domestig mewn gwestai a lleoliadau eraill sy'n cynnig llety.

**14, 15 AC 16 OED**

*Gallaf gael fy nghyflogi i wneud gwaith ysgafn\* yn unig*

*\* Mae gwaith ysgafn yn golygu gwaith nad yw'n niweidiol i'm hiechyd, fy niogelwch na'm datblygiad ac nid yw'n effeithio ar fy agwedd yn yr ysgol neu fy lleoliad profiad gwaith ysgol.*

**Sylwer:** Masnachu ar y Stryd Os rwyf yn mynd i gael fy nghyflogi i fasnachu ar y stryd (e.e. marchnadoedd neu arwerthiannau cist car) mae'n rhaid i'm rhieni/gwarchodwyr gael copi o is-ddeddfau Dinas a Sir Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau am y math hwn o waith.

Arweiniad yn unig yw'r daflen hon. Mae is-ddeddfau sy'n rheoleiddio cyflogi plant. Os ydych am gael mwy o wybodaeth neu gopi o'r is-ddeddfau, gallwch eu cael oddi wrth: Y Swyddog Cyflogaeth Plant, Safle Mynyddbach, Heol Ddu, Treboeth, Abertawe, SA5 7HP. Ffôn; 01792 771935.  
Neu ewch i: [www.abertawe.gov.uk/childemployment](http://www.abertawe.gov.uk/childemployment).